# Agenda - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

**Hybrid**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Tachwedd 2023

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price** - Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Deisebau@senedd.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 - 17)

**Sesiwn dystiolaeth ar y deisebau canlynol:**

## 2 P-06-1264 Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun

(Tudalennau 18 - 21)

## 3 P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

(Tudalennau 22 - 26)

## 4 P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

(Tudalennau 27 - 30)

**Panel tyst:**

- Elin Hargrave - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd
- Bethan Roberts - Swyddog Addysg ac Ymgysylltu Ieuenctid y Senedd
- Ffion Fairclough ASIC - Aelod Senedd Ieuenctid Cymru dros Bontypridd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Kasia Tomsa ASIC - Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Blaenau Gwent

## 5 Deisebau newydd

5.1 P-06-1361 Dylid amddiffyn gweithwyr asiantaeth yn y GIG

(Tudalennau 31 - 34)

5.2 P-06-1371 Dylid ailagor y safle rheilffordd yn Nantyderi, Goytre Fawr, i'n cynnwys ni ym Metro De Cymru.

(Tudalennau 35 - 40)

5.3 P-06-1372 Achub ein gwasanaeth bysiau hyblyg, Bwcabus

(Tudalennau 41 - 46)

5.4 P-06-1374 Dylai tirfeddiannwyr Cymru - yn yr un modd â Lloegr - allu caniatáu 60 diwrnod y flwyddyn o wersylla mewn pebyll a faniau

(Tudalennau 47 - 56)

5.5 P-06-1376 Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i daliadau peilot incwm sylfaenol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

(Tudalennau 57 - 64)

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

6.1 P-06-1184 Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru … mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!

(Tudalennau 65 - 66)

6.2 P-06-1209 Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru

(Tudalennau 67 - 70)

6.3 P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol

(Tudalennau 71 - 72)

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8 Trafod y dystiolaeth - P-06-1264 Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun / P-06-1343 Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd / P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Cludiant ysgol am ddim

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Ebrill 2022
Petitions Committee | 25 April 2022

**Cyfeirnod:** SR22/2498

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1264

**Teitl y ddeiseb:** Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun

**Geiriad y ddeiseb:** Gwrthodwyd i o leiaf 27 o blant 11-12 oed gael cludiant i'w hysgol gyfun agosaf. Mae gan rai o'r plant ifanc hyn gyflyrau meddygol fel asthma ac awtistiaeth ac mae gan o leiaf 1 plentyn epilepsi ac mae disgwyl iddynt gerdded i'r ysgol ym mhob tywydd. Mae'r plant hyn wedi cael eu gwahanu oddi wrth ffrindiau sydd wedi gallu cael pas bws, a dim ond nifer gyfyngedig o blant sydd wedi'u gwrthod. Mae'n warthus.

Dim ond nifer gyfyngedig o blant sydd wedi'u heithrio rhag cael pas bws, a hynny oherwydd cyfreithiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth sydd i fod yn rhoi blaenoriaeth i les plant. Mae yna oedolion ifanc 16 oed yn cael pas oherwydd eu bod yn yr ysgol cyn i'r gyfraith hon gael ei newid, felly er bod y rhain yn ddigon aeddfed i ddod o hyd i fath arall o gludiant, mae plant 11 a 12 oed yn cerdded mewn tywydd echrydus ar hyd ffyrdd peryglus. Mae addysg yn orfodol yn y wlad hon ac felly dylai cludiant fod ar gael i bob disgybl os nad yw'r ysgol gyfun yn y pentref y maent yn byw ynddo. Rydym i gyd yn talu trethi, gan gynnwys taliadau cymunedol ac ni ddylai'r Llywodraeth fod wedi gwneud toriadau i'r ddarpariaeth addysg. Dylai fod yn hanfodol i blant fedru cyrraedd yr ysgol yn ddiogel ac yn sych. Creulondeb llwyr yw gwneud i blant ifanc gerdded 3 milltir mewn pob math o dywydd yn wlyb socian ac yn eistedd mewn gwersi drwy'r dydd.

# 1. Y cefndir

## 1.1. Yr hawl ar hyn o bryd i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol

O dan ddarpariaethau'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr **o oedran ysgol gorfodol** sy'n byw ymhellach na phellteroedd penodol o'u hysgol addas agosaf. Mae'r pellteroedd a elwir yn bellteroedd cerdded wedi'u nodi yn y Mesur. Y pellteroedd statudol yw dwy filltir i ddisgyblion ysgolion cynradd a thair milltir i ddisgyblion ysgolion uwchradd.

Mae'r hawl i gludiant ysgol am ddim a phellteroedd cerdded statudol yn tarddu o Ddeddf Addysg 1944, a oedd yn nodi pellteroedd cerdded fel dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran ysgol gorfodol 8 oed ac iau, a thair milltir ar gyfer disgyblion hŷn. Roedd Deddf Addysg 1993 yn ailddatgan y pellteroedd hyn.

## 1.2. Asesu anghenion dysgwyr

O dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sydd o dan 19 oed yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys y rhai y mae rheidrwydd cyfreithiol arnynt i ddarparu cludiant ar eu cyfer a'r rhai y maent yn dymuno darparu cludaint ar eu cyfer yn ôl eu disgresiwn eu hunain wrth asesu anghenion teithio. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdod ystyried:

- Anghenion unrhyw ddysgwyr anabl a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu;
- Anghenion penodol dysgwyr 'sy'n derbyn gofal' neu sydd wedi derbyn gofal yn ffurfiol gan awdurdod lleol;
- Oedran y dysgwr;
- Y math o lwybr y disgwylir i'r dysgwr ei ddilyn rhwng y cartref a lleoliad yr addysg neu'r hyfforddiant.

## 1.3. Llwybrau sydd ar gael

Mae'r Mesur yn nodi y dylid mesur y pellter cerdded 'ar hyd y ffordd fyrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod ffordd "ar gael" os yw'n ddiogel (cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol) i ddysgwr heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben

ei hun, neu gyda hebryngwr sy'n oedolyn pe byddai oed a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn galw am ddarparu hebryngwr.

Os nad yw ffordd 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall ar gael o fewn y pellter perthnasol, ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol addas agosaf, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r pellter sy'n gymwys i oedran y dysgwr.  Mewn achosion felly, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim i'r dysgwr i'r ysgol addas agosaf ac oddi yno.

### 1.4. Darpariaethau yn ôl disgresiwn

Yn ogystal â darpariaeth statudol, mae gan awdurdodau lleol bwerau dewisol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr eraill sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau disgresiwn, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y polisi yn cael ei gymhwyso i bob dysgwr sy'n wynebu amgylchiadau tebyg yn ardal yr awdurdod hwnnw. Er nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig cludiant am ddim, rhai enghreifftiau o adegau y gellir defnyddio'r ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn yw ar gyfer:

- Plant o dan bump oed;
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn ysgolion addas agosaf;
- Ysgolion ffydd nad ydynt yn ysgolion addas agosaf;
- Dysgwyr ôl-16 sy'n parhau â'u hastudiaethau mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif-ffrwd.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Tachwedd 2019, ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru i adolygu'r ddeddfwriaeth ar Deithio gan Ddysgwyr o ran dysgwyr ôl-16. Yn Natganiad Ysgrifenedig y Cabinet ar y cyd, dywedodd Gweinidog y Gymraeg, Addysg a Chysylltiadau Rhyngwladol; y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:

> Rydym yn cytuno bod y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i gludo dysgwyr o oedran ysgol statudol ar sail pellter, cymhwyster a diogelwch, yn gweithio'n dda yn gyffredinol. Wedi dweud hynny, gwyddom fod pryder cynyddol ymhlith dysgwyr ôl-16 pan fo gan yr awdurdodau lleol ddisgresiwn dros drefniadau teithio.

Yn ôl Datganiad gan y Cabinet ym mis Awst 2020, cafodd yr adolygiad ei ymestyn i gynnwys y grŵp oedran 4-16 oed a'r trothwy milltiroedd presennol ar gyfer trafnidiaeth am ddim. Roedd disgwyl i'r adolygiad ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2021, ond ni chyhoeddwyd yr adolygiad oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad yn arwain at etholiadau Senedd 2021 a gynhaliwyd ym mis Mai 2021. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2020-21 (Tachwedd 2021) yn dweud:

> Daeth yn amlwg, o ganlyniad i drafodaethau a chysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r adolygiad cychwynnol, fod problemau eraill ynghlwm â darpariaeth bresennol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr sy'n golygu bod angen adolygiad pellach, mwy manwl. Bydd yr adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi nawr a bydd swyddogion yn ystyried sut orau i symud ymlaen â'r gwaith pellach sy'n ofynnol er mwyn adolygu teithio gan ddysgwyr yng Nghymru.

## 3. Camau gan Senedd Cymru

Yn 2017, bu Pwyllgor Deisebau y Bumed Senedd yn ystyried deiseb, Cludiant Ysgol Am Ddim i Holl Blant Cymru. Cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y pryd, a gofynnodd am farn y Deisebydd, ond ar ôl methu â chysylltu â'r deisebydd, caewyd y Ddeiseb.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ysgrifennu at Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2019.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Eitem 3

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Gorffennaf 2023
Petitions Committee | 3 July 2023

**Reference:** SR23/5997-5

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1343

**Teitl y ddeiseb**: Darparwch drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd

**Geiriad y ddeiseb:** Credaf y dylai fod gan bob plentyn mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru hawl i gael drafnidiaeth gyhoeddus am ddim er mwyn iddynt allu teithio i'w hysgol uwchradd ddalgylch* yn ddiogel.

Rydym yn byw 2.4 milltir o ysgol uwchradd ein plant ond mae ein cyngor yn datgan mai dim ond i'r rhai sy'n byw 3 milltir (neu ymhellach) o'u hysgol uwchradd ddalgylch y mae trafnidiaeth am ddim ar gael. Byddai cerdded i'r ysgol yn cymryd rhwng 50 munud ac awr o'n tŷ ni ar hyd ffyrdd prysur a gordyrrog. Nid oes llwybr beicio diogel.

Fel teulu rydym yn gwario dros £80 y mis ar docynnau bws ar gyfer ein 2 blentyn. Mae'n arian na allwn ei fforddio mewn gwirionedd ond i rai rhieni mae canfod £40 y mis (y plentyn) yn amhosib ac felly mae eu plant yn cael eu gorfodi i gerdded ar hyd ffyrdd tywyll, prysur, peryglus a llygredig er mwyn cyrraedd yr ysgol. Mae hyn yn annheg ac yn gwahaniaethu yn erbyn y plant tlotaf mewn cymdeithas.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad (Mawrth 2022) o 'Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)' ac ym mis Mehefin 2022 dywedodd Mark Drakeford y bydd 'rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr a fydd yn sicrhau bod ein holl randdeiliaid yn cael y cyfle i gyfrannu at yr adolygiad ehangach dilynol'.

*Mae ysgol uwchradd ddalgylch yn cyfeirio at leoliad addysg CA3/4 y plentyn/person ifanc gan gynnwys y Ysgolion cyfrwng Cymraeg, Ysgolion cyfrwng Saesneg, Ysgolion dwyieithog, Ysgolion Ffydd, Ysgolion Arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion, darpariaeth EOTAS (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) ac ati.

# 1. Cefndir

## 1.1. Yr hawl ar hyn o bryd i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol

O dan ddarpariaethau'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr o **oedran ysgol gorfodol** sy'n byw ymhellach na phellteroedd penodol o'u hysgol addas agosaf. Mae'r pellteroedd a elwir yn bellteroedd cerdded wedi'u nodi yn y Mesur. Y pellteroedd statudol yw dwy filltir i ddisgyblion ysgolion cynradd a thair milltir i ddisgyblion ysgolion uwchradd.

Mae'r hawl i gludiant ysgol am ddim a phellteroedd cerdded statudol yn tarddu o Ddeddf Addysg 1944 a oedd yn nodi pellteroedd cerdded fel dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran ysgol gorfodol 8 oed ac iau, a thair milltir ar gyfer disgyblion hŷn.

## 1.2. Asesu anghenion dysgwyr

O dan ddarpariaethau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sydd o dan 19 oed yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys y rhai y mae rheidrwydd cyfreithiol arnynt i ddarparu cludiant ar eu cyfer a'r rhai y maent yn dymuno darparu cludiant ar eu cyfer yn ôl

eu disgresiwn eu hunain wrth asesu anghenion teithio. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdod ystyried:

- Anghenion unrhyw ddysgwyr anabl a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu;
- Anghenion penodol dysgwyr 'sy'n derbyn gofal' neu sydd wedi derbyn gofal yn ffurfiol gan awdurdod lleol;
- Oedran y dysgwr;
- Y math o lwybr y disgwylir i'r dysgwr ei ddilyn rhwng y cartref a lleoliad yr addysg neu'r hyfforddiant.

## 1.3. Llwybrau sydd ar gael

Mae'r Mesur yn nodi y dylid mesur y pellter cerdded 'ar hyd y ffordd fyrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod ffordd "ar gael" os yw'n ddiogel (cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol) i ddysgwr heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, neu gyda hebryngwr sy'n oedolyn pe byddai oed a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn galw am ddarparu hebryngwr.

Os nad yw ffordd 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall ar gael o fewn y pellter perthnasol, ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol addas agosaf, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r pellter sy'n gymwys i oedran y dysgwr. Mewn achosion felly, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim i'r dysgwr i'r ysgol addas agosaf ac oddi yno.

## 1.4. Darpariaethau yn ôl disgresiwn

Yn ogystal â darpariaeth statudol, mae gan awdurdodau lleol bwerau dewisol i ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr eraill sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod. Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau disgresiwn, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y polisi yn cael ei gymhwyso i bob dysgwr sy'n wynebu amgylchiadau tebyg yn ardal yr awdurdod hwnnw. Er nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig cludiant am ddim, rhai enghreifftiau o adegau y gellir defnyddio'r ddarpariaeth cludiant yn ôl disgresiwn yw ar gyfer:

- Plant dan bump oed;
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn ysgolion addas agosaf;
- Ysgolion ffydd nad ydynt yn ysgolion addas agosaf;
- Dysgwyr ôl-16 sy'n parhau â'u hastudiaethau mewn addysg bellach neu hyfforddiant prif-ffrwd.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Tachwedd 2019, ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru i adolygu'r ddeddfwriaeth ar Deithio gan Ddysgwyr o ran dysgwyr ôl-16. Mewn Datganiad Ysgrifenedig Cabinet ar y cyd, dywedodd Gweinidog y Gymraeg, Addysg a Chysylltiadau Rhyngwladol; y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth bod y trefniadau trafnidiaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn gweithio'n dda ar y cyfan.

Yn ôl Datganiad gan y Cabinet ym mis Awst 2020, cafodd yr adolygiad ei ymestyn i gynnwys y grŵp oedran 4-16 oed a'r trothwy milltiroedd presennol ar gyfer trafnidiaeth am ddim. Roedd disgwyl i'r adolygiad ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2021, ond ni chyhoeddwyd yr adolygiad oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad yn arwain at etholiadau'r Senedd a gynhaliwyd ym mis Mai 2021.

Cyhoeddwyd yr adroddiad interim ar yr adolygiad o fis Mawrth 2021 ar 31 Mawrth 2022. Mae'r adroddiad interim, sydd wedi'i ysgrifennu mewn fformat gan swyddogion Llywodraeth Cymru i Weinidogion, yn cyflwyno dau opsiwn i'w hystyried:

- opsiwn 1. Datblygu newidiadau i'r Mesur yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol nesaf fel y'i hamlinellir yng nghwmpas gwreiddiol yr adolygiad.
- opsiwn 2. Datblygu rhaglen ehangach o waith sy'n cynnwys ystyrieddiwygiad llwyr o'r Mesur ynghyd â gwaith i;
  - gwella darpariaeth gweithredwyr a'r amgylchedd lle gellir darparu mwy o dan y Mesur; ac◦
  - ystyried gwell integreiddio â pholisïau cysylltiedig, megis anghenion disgyblion ADY a darpariaeth i sefydliadau Addysg Bellach.

Argymhellodd swyddogion opsiwn 2 ac awgrymwyd y gellid ei gyfuno â gwaith polisi arall ym maes trafnidiaeth gyhoeddus.

Mewn datganiad ysgrifenedig Cabinet (31 Mawrth 2022) dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd y byddai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno rhaglen ehangach o waith eleni sy'n cynnwys ystyried adolygiad cyflawn o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Dywedodd hefyd:

> Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r sail dystiolaeth i gefnogi unrhyw newidiadau arfaethedig i sicrhau eu bod yn deg, yn gymesur ac yn fforddiadwy. Byddwn yn ymgynghori ar y gwaith hwn yn ddiweddarach eleni.

Mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig (12 Ebrill 2023), dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd:

> An initial review of the Learner Travel (Wales) Measure took place in 2020/2021. From the initial review it was a clear that a more detailed review of the Measure was required due to the complex nature of learner's travel needs.
>
> Work has now commenced on this wider review of the Measure which, working in partnership with local authorities, the industry as well as children and young people, will identify the barriers as well as opportunities and innovative approaches to learner travel. Key findings, learnings and examples of innovative good practice from local, national and international research will inform advice due to be submitted for me to review this summer.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Yn 2017, bu Pwyllgor Deisebau y Bumed Senedd yn ystyried deiseb, Cludiant Ysgol Am Ddim i Holl Blant Cymru. Cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y pryd, a gofynnodd am farn y Deisebydd, ond ar ôl methu â chysylltu â'r deisebydd, caewyd y ddeiseb.

Trafodwyd deiseb bellach, Gwarantu cludiant ysgol ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cyfun gan y Pwyllgor ar 25 Ebrill 2022. Yn sgil adolygiad Llywodraeth Cymru, cytunodd y Pwyllgor i barhau i gadw golwg ar y ddeiseb.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1346 Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Medi 2023
Petitions Committee | 11 September 2023

**Cyfeirnod:** SR23/6132-2

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1346

**Teitl y ddeiseb:** Darparu trafnidiaeth gyhoeddus am ddim a hygyrch i'r rhai o dan 18 oed yng Nghymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a hybu twf

**Geiriad y ddeiseb:** Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn chwarae rhan annatod wrth gysylltu plant Cymru â chyfleoedd addysgol, cymdeithasol a gwaith.

Fodd bynnag, yn sgil yr argyfwng costau byw, yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cymell trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau allyriadau carbon a gwella twf economaidd.

Roedd cynhadledd ENYA yn 2022, lle roedd 2 gynrychiolydd ifanc o Gymru yn bresennol, yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy.

# 1. Y cefndir

Yn ôl Sefydliad yr RAC mae prisiau trên y DU 35 y cant yn uwch, a phrisiau bysiau tua 54 y cant yn uwch na degawd yn ôl, tra bod cyflogau cyfartalog wedi cynyddu ychydig o dan 40 y cant. Mae hefyd yn dangos bod cost moduro tua 43 y cant yn uwch.

Canfu adroddiad a gynhaliwyd yn 2022 gan Sustrans Cymru fod y costau cynyddol o deithio ar fysiau yn effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc, sy'n dibynnu'n fwy ar drafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad at addysg, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth.

Yn 2021 roedd 15 y cant o allyriadau tŷ gwydr Cymru yn dod o drafnidiaeth. Nod Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 Llywodraeth Cymru yw lleihau hyn 22 y cant erbyn 2025. Mae hefyd yn anelu at gynyddu cyfran y teithiau a wneir ar drafnidiaeth gyhoeddus o tua 5 y cant i 13 y cant erbyn 2040.

Yn unol â hynny, mae Strategaeth Drafnidiaeth 2021 yn canolbwyntio ar annog pobl i fanteisio ar drafnidiaeth gyhoeddus drwy wella seilwaith, dibynadwyedd a phrofiad teithwyr. Fodd bynnag, cydnabyddir pwysigrwydd fforddiadwyedd hefyd. Mae Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027 Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i archwilio cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus consesiynol ar gyfer pobl ifanc, a dywedodd ei rhaglen lywodraethu 2021-2026 y byddai'n:

> Archwilio estyniadau i Fy Ngherdyn Teithio ar gyfer teithio rhatach i bobl ifanc.

Mae Fy Ngherdyn Teithio 16-21 yn rhoi gostyngiad o 30 y cant i ddeiliaid ar fysiau yng Nghymru. O ran rheilffyrdd, mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnig teithiau trên am ddim ar adegau tawel i bobl o dan 16 oed sy'n teithio yng nghwmni oedolyn sy'n talu am docyn, a gall plant dan 11 oed deithio am ddim unrhyw bryd. Mae'r gostyngiadau tocynnau rheilffordd i bobl ifanc sydd ar gael ledled Prydain Fawr yn cynnwys 16-17 Saver a chardiau rheilffordd National Rail, sy'n cynnig gostyngiadau o 50 y cant a 33 y cant yn y drefn honno.

Mae amrywiaeth o gynlluniau eraill ar waith ledled Prydain Fawr sy'n cynnig teithio am ddim neu am bris gostyngol i bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig TfL o deithiau bws a thramiau am ddim i bobl o dan 18 oed sy'n byw yn Llundain, a theithio am ddim ar y rheilffyrdd i blant dan 10 oed. Yn nodedig, cyflwynodd yr Alban deithiau bws am ddim i bobl rhwng 5 a 21 oed ar 31 Ionawr 2022. Yn ôl Transport Scotland, ym mis Mai 2023 roedd y nifer a oedd yn manteisio tua dwy

ran o dair o'r defnyddwyr sy'n gymwys i'w gael, ac mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n manteisio wedi caniatáu i rai gwmnïau bysiau gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir. Fodd bynnag, mewn rhai adroddiadau yn y cyfryngau beiwyd y cynllun am gynyddu anhrefn ar fysiau.

Mae cymorth prawf modd gyda chostau teithio sy'n gysylltiedig ag addysg ar gyfer plant dan 16 oed hefyd ar gael yng Nghymru a Lloegr gan awdurdodau addysg lleol, a gall pobl ifanc 16-18 oed wneud cais am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

## 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ar 25 Mai 2023, cydnabu Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, y gall prisiau bysiau isel annog mwy o deithio ar fysiau. Cyfeiriodd at fentrau teithio gostyngol diweddar megis treialon bws am ddim yng Nghasnewydd ym mis Mawrth 2022 a'r cynllun bws am ddim dros yr haf yn Abertawe. Amlinellodd hefyd y mesurau sy'n cael eu hystyried i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy fforddiadwy yng Nghymru, gan gynnwys:

> y posibilrwydd o gyflwyno prisiau sengl a fydd yn cael eu capio, prisiau a fydd yn gysylltiedig â pharthau, tocynnau integredig ar gyfer bysiau a threnau, a thocynnau gwell ar gyfer pobl ifanc.

Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog hefyd at ddiwygiadau arfaethedig i fysiau. Mae papur gwyn 'Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn' a Strategaeth Bysiau 2022 cysylltiedig Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynigion ar gyfer masnachfreinio a allai, mae'n dweud, wella fforddiadwyedd trwy wneud gweithredwyr trafnidiaeth:

> … roi pobl o flaen elw ac i wneud bysiau mor hawdd a deniadol i'w defnyddio ag y gallwn.

Roedd cynlluniau hefyd yn cynnwys cynigion i symleiddio'r rhwydwaith bysiau a phrisiau tocynnau, fel y bo:

> … pob bws yn rhedeg ar yr un system docynnau, a bod tocynnau pobl yn seiliedig ar y daith y byddant yn ei gwneud yn hytrach nag ar brisiau'r gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwybr y byddant yn digwydd bod yn teithio arno.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog, er bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i wella mentrau prisiau bysiau, bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu er mwyn cynnal gwasanaethau bysiau hanfodol cymunedau.

# 3. Camau gan Senedd Cymru

Yn dilyn ei ymchwiliad yn 2022 i deithio ar fysiau a'r rheilffordd , tynnodd adroddiad mis Hydref 2022 y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith sylw at bryderon gan yr Athro Mark Barry nad oedd tocynnau bws consesiynol yn deg i bobl ifanc. Dywedodd y canlynol:

> …providing a bit more support for younger people in a very uncertain work environment where travel costs make up a disproportionately high proportion of what people actually earn.

O ganlyniad i hyn, argymhellodd yr adroddiad :

> Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynigion cyn gynted â phosibl i fynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth yng Nghymru sy'n deillio o'r argyfwng costau byw, gan gynnwys prisiau teithio â chymhorthdal a chymorth ariannol arall.

Wrth ymateb, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Ailadroddodd ei diddordeb mewn adeiladu ar y cynllun Fy Ngherdyn Teithio, ond nododd bod cyfyngiadau cyllidebol yn ffactor cyfyngol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Dylid amddiffyn gweithwyr asiantaeth yn y GIG

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 27 November 2023

**Cyfeirnod:** SR23/6916-3

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1361

**Teitl y ddeiseb:** Dylid amddiffyn gweithwyr asiantaeth yn y GIG

**Geiriad y ddeiseb:**

Ar hyn o bryd, nid yw gweithwyr asiantaeth yn cael yr un mesurau diogelu a chymorth gan fyrddau iechyd â chyflogeion eraill y GIG. Fel gweithiwr cymorth gofal iechyd asiantaeth, rwyf wedi cael profiad personol o fod yn destun honiadau anwir a di-sail a barhaodd am fisoedd, ac nid oedd gennyf hawl na chyfle i herio'r rhain. Byddai wedi bod gennyf rwymedïau neu hawl mewn llys barn pe bai'r GIG wedi bod yn fy nghyflogi'n uniongyrchol.

Mae'r GIG yn dibynnu ar weithwyr asiantaeth i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Dylid eu trin yn deg. Felly, rwy'n annog Llywodraeth Cymru i adolygu, yn ei swyddogaeth goruchwylio, y polisïau sy'n rheoli'r ffordd y caiff gweithwyr sy'n cael eu recriwtio drwy asiantaethau eu cyflogi a'u trin.

# 1. Y cefndir

Mae gweithwyr asiantaeth yn y GIG fel arfer yn cael eu cyflogi gan asiantaeth allanol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau gwaith staff, ac am ymdrin â chwynion staff.

Mae Llawlyfr ar Delerau ac Amodau Gwaith y GIG sy'n nodi'r telerau ac amodau gwaith ar gyfer staff y GIG a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru.

Mae gan staff asiantaethau hawliau cyflogaeth penodol a nodir yma ar wefan Llywodraeth y DU. Hefyd mae'r Cod Ymarfer hwn gan Lywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesegol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yn nodi:

> Pan fydd gweithiwr asiantaeth wedi bod yn gweithio i'r cyflogwr am gyfnod o 12 wythnos mae'n ennill yr hawl i'r un amodau gwaith a chyflogaeth sylfaenol â'r rheini sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol – ar yr amod ei fod wedi bod yn cyflawni'r un rôl am y cyfnod cyfan. Mae hyn yn cynnwys hawliau sy'n ymwneud â chyflog, hyd ei amser gweithio, seibiannau gorffwys a gwyliau blynyddol.

# 2. Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn ei hymateb i'r ddeiseb dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nad yw gweithwyr asiantaeth na'u telerau ac amodau cyflogaeth yn fater i Lywodraeth Cymru, gan mai'r asiantaeth sy'n cyflogi staff asiantaethau, nid y GIG. Nododd mai cyfrifoldeb yr asiantaeth yw ymdrin yn deg ag unrhyw gwynion sy'n codi.

Nododd y Gweinidog fod gweithwyr asiantaeth yn gweithredu ar oriau gwaith hyblyg a'u bod fel arfer yn cael eu talu y tu allan i lefelau tâl arferol y GIG. Aeth ymlaen i ddweud, pe bai gweithwyr asiantaeth yn dymuno cael yr un buddion ag aelodau o staff cyflogedig, efallai y byddent yn dymuno ystyried gwneud cais am swydd o dan gontract yn y GIG, neu weithio drwy Fanc y GIG.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1361
Ein cyf/Our ref EM/02424/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Tachwedd 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Medi ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-06-1361: 'Dylid amddiffyn gweithwyr asiantaeth yn y GIG'.

Roedd yn ddrwg gennyf ddarllen am bryderon y deisebydd. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr asiantaeth, na thelerau ac amodau eu cyflogaeth, yn fater i Lywodraeth Cymru gan mai'r asiantaeth yn hytrach na'r GIG sy'n cyflogi'r staff hyn. Cyfrifoldeb yr asiantaeth yw ymdrin yn deg ag unrhyw gwynion sy'n cael eu codi.

Mae gweithwyr asiantaeth yn gweithio'n seiliedig ar oriau gwaith hyblyg lle maent yn gallu dewis y shifftiau y maent am eu gweithio gan ddibynnu ar eu hanghenion, ac maent yn cael tâl sydd fel arfer y tu allan i lefelau cyflogau arferol y GIG. Os yw gweithiwr asiantaeth yn dymuno cael yr un buddion â staff cyflogedig, gan gynnwys sicrwydd o ran cael shifftiau rheolaidd, tâl salwch, tâl yn ystod gwyliau, a buddion eraill o'r fath, efallai y byddent yn dymuno ystyried ymgeisio am swydd o dan gontract gan y GIG neu weithio drwy fanc y GIG. Gallai hyn fod ar gyfer yr holl oriau y maent am gael eu cyflogi amdanynt, neu rai o'r oriau hynny.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 5.2

# P-06-1371 - Dylid ailagor y safle rheilffordd yn Nantyderi, Goytre Fawr, i'n cynnwys ni ym Metro De Cymru.

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 27 November 2023

Cyfeirnod: SR23/7092

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1371

**Teitl y ddeiseb**: Dylid ailagor y safle rheilffordd yn Nantyderi, Goytre Fawr, i'n cynnwys ni ym Metro De Cymru.

**Geiriad y ddeiseb**: Mae gennym boblogaeth ddigonol i'w chynnwys yn y cynllun hwn. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r A4042 er mwyn cysylltu â Chaerdydd a Lloegr gyda gwasanaeth bws cyfyngedig. Mae'r galw ymhlith preswylwyr yn cynyddu.

# 1. Y cefndir

Ar wahân i reilffyrdd craidd y Cymoedd, a drosglwyddwyd i berchnogaeth Llywodraeth Cymru yn 2020, nid yw'r seilwaith rheilffyrdd - gan gynnwys gorsafoedd - wedi'i ddatganoli a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw.

Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau i fuddsoddi mewn rheilffyrdd, nid yw'n cael dyraniad Grant Bloc.

Pentref yn Sir Fynwy yw Nantyderi. Mae wedi'i leoli ar Linell Gororau Cymru. Caeodd gorsaf reilffordd y pentref ym 1958. Gan ei fod y tu allan i ardal rheilffyrdd craidd y Cymoedd, Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am fuddsoddi yn Llinell y Gororau.

Mae Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol 2022-2027 Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn adeiladu gorsafoedd newydd ar reilffordd craidd y Cymoedd, gan gynnwys yn y Crwys a Threbiwt. Aiff yn ei flaen i ddweud "rydym hefyd yn ystyried yr achos dros ragor o orsafoedd newydd a gwelliannu i gyfnewidfeydd mewn sawl lleoliad ledled rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd."

O ran gorsafoedd nad ydynt wedi'u datganoli, mae'r cynllun yn tynnu sylw at waith blaenorol i ailagor gorsafoedd ar y rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol nad yw wedi'i ddatganoli. Mae hyn yn cynnwys Gorsaf Bow St yng Ngheredigion, a agorwyd ym mis Chwefror 2021 gyda buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dilyn ymgyrch hir gan y gymuned leol.

Mae'r cynllun yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru "yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar gyfleoedd i agor gorsafoedd ychwanegol ledled y rhwydwaith yn y dyfodol".

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynigion ar gyfer pum gorsaf newydd ar Brif Linell De Cymru. Daeth y cynigion hyn i'r amlwg o argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (y 'Comisiwn Burns'), a wnaeth argymhellion ar ddewisiadau amgen i ffordd liniaru'r M4.

Mae gwaith datblygu yn cael ei wneud gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn dilyn cymeradwyo argymhellion Comisiwn Burns yn adroddiad terfynol 2021 gan Lywodraeth y DU yn Adolygiad Cysylltedd yr Undeb. Fodd bynnag, mae deunyddiau ymgynghori TrC yn ei gwneud yn glir unwaith y bydd y cynigion yn cael eu datblygu, "mae'r prosiect hwn yn dibynnu ar lawer o bethau

eraill sy’n digwydd hefyd. Yn bwysicaf oll, mae arnom angen cyllid i gyflawni’r gwaith terfynol."

Yn y gorffennol, mae gorsafoedd newydd Cymru wedi cael eu hariannu'n rhannol drwy Gronfa Gorsafoedd Newydd Llywodraeth y DU.

Mae’r mater ynghylch a yw San Steffan wedi tanariannu seilwaith rheilffyrdd Cymru wedi cael ei drafod ers peth amser. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am ddatganoli cyfrifoldeb gyda chyllid priodol.

Adroddodd Pwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU ar seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2021. Canfu achos cryf dros fuddsoddiad ychwanegol yn seilwaith rheilffyrdd Cymru. Fodd bynnag, ni welodd fanteision o ran datganoli’r gwaith o gynllunio ac ariannu seilwaith rheilffyrdd i Gymru. Tynnodd sylw, yn hytrach, at ymrywmiadau sylweddol.

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae'r llythyr at y Cadeirydd gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y ddeiseb hon yn tynnu sylw at y ffaith mai cyfrifoldeb San Steffan yw Llinell y Gororau. Dywed y llythyr, "Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ein cais am ddatganoli rheilffyrdd pellach yn gyson ac wedi methu â buddsoddi'n ddigonol yng Nghymru."

Aiff ymlaen i ddweud “O bryd i'w gilydd mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi proses ymgeisio gystadleuol” ar gyfer gorsafoedd newydd yng Nghymru a Lloegr - cyfeiriad at y Gronfa Gorsafoedd Newydd - ac yn tynnu sylw at gefnogaeth Llywodraeth Cymru yn y gorffennol i brosiectau yng Nghymru. Dywed bod ymgysylltu cymunedol cryf yn bwysig yn y broses hon.

Mae Llywodraeth Cymru a TrC wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a Network Rail i ddatblygu piblinell prosiect seilwaith rheilffyrdd, gan gynnwys gorsafoedd newydd. Dywed y Dirprwy Weinidog y gellir ychwanegu prosiectau newydd at y rhestr hon.

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Er bod cynigion ar gyfer gorsafoedd newydd wedi cael eu trafod yn rheolaidd yn y Senedd, nid yw'n ymddangos bod cynigion ar gyfer gorsaf newydd yn Nantyderi wedi'u codi hyd yma.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1371
Ein cyf/Our ref MA/LW/02465/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

08 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr ar 2 Hydref ar ran David Thomas ynghylch deiseb P-06-1371 Dylid ailagor y safle rheilffordd yn Nantyderi, Goytre Fawr, i'n cynnwys ni ym Metro De Cymru.

Nid Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar linell y Mers a'i seilwaith. Llywodraeth y DU yw'r perchennog a thrwy Network Rail mae'n gyfrifol am yr holl waith rheoli a datblygu. Mae hyn yn wir am y rhan fwyaf o'r rheilffordd yng Nghymru, ac eithrio rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod ein cais am ddatganoli rheilffyrdd pellach yn gyson ac wedi methu â buddsoddi'n ddigonol yng Nghymru.

Gan nad yw seilwaith y rheilffyrdd wedi ei ddatganoli yn briodol ac yn absenoldeb setliad ariannu teg, mae angen i Lywodraeth y DU gyflawni eu cyfrifoldebau dros wella'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys ariannu datblygu ac adeiladu gorsafoedd newydd. O bryd i'w gilydd mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi proses ymgeisio gystadleuol ar gyfer datblygu gorsafoedd rheilffyrdd newydd ledled Cymru a Lloegr, roedd y rownd ddiweddaraf yn 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ceisiadau i gefnogi prosiectau i ailagor gorsafoedd ledled Cymru. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn gwneud yn well ym mhroses Llywodraeth y DU pan fo cefnogaeth gymunedol gref wedi'i threfnu, gydag achos busnes datblygedig.

O ystyried yr angen i flaenoriaethu buddsoddiad cyfyngedig, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Adran Drafnidiaeth y DU, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail i ddatblygu llwybr â blaenoriaeth ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried gorsafoedd newydd posibl. Bydd y llwybr hwn yn pennu ein blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd, fodd bynnag, os daw prosiectau eraill i'r amlwg gydag achos cryf, mae'n bosibl y gellir eu hychwanegu at y rhestr hon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

Eitem 5.3

# P-06-1372 Achub ein gwasanaeth bysiau hyblyg, Bwcabus

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 27 November 2023

Cyfeirnod: SR23/7092-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1372

Teitl y ddeiseb: Achub ein gwasanaeth bysiau hyblyg, Bwcabus

Geiriad y ddeiseb: Gwasanaeth bysiau lleol yw "fflecsi Bwcabus." Mae'n gwbl hygyrch ac yn gweithredu mewn ardaloedd penodol yng Nghymru gan gynnig cyfuniad o wasanaethau llwybrau sefydlog a siwrneiau y gellir eu harchebu ymlaen llaw. Nod "fflecsi Bwcabus" yw helpu pobl i deithio'n lleol a chysylltu â gwasanaethau bysiau'r brif lein. Rydych yn gofyn i fws eich codi a gall hwnnw newid ei lwybr er mwyn i'r holl deithwyr gyrraedd lle bynnag y mae angen iddynt fynd.

Cafodd "fflecsi Bwcabus" ei greu i ddisodli gwasanaethau bysiau cymunedol lleol. Mae pobl mewn cymunedau gwledig yn dibynnu ar y gwasanaeth hwn i weld y meddyg teulu neu i gyrraedd y gweithle, i fynd i siopa a chwrdd â ffrindiau. Mae'r gwasanaeth yn rhan hanfodol o'n cymunedau gwledig ac, i lawer, dyma'r unig ffordd y gallant deithio o le i le a bydd nifer o bobl oedrannus yn ynysig iawn os na fydd y gwasanaeth yn parhau.



www.senedd.cymru

# 1. Y cefndir

Mae Bwcabus – bellach Fflecsi Bwcabus - yn wasanaeth bysiau sy'n ymateb i'r galw. Mae'n cysylltu cymunedau gwledig â phrif wasanaethau bysiau yng Ngheredigion, sir Gaerfyrddin a sir Benfro. Mae'r cynllun wedi cael ei ariannu gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Sefydlwyd y gwasanaeth gyda mewnbwn gan yr Athro Stuart Cole yn 2009. Ers hynny, mae nifer o wasanaethau bws eraill o'r math hwn wedi cael eu datblygu o dan yr enw Gwasanaeth Fflecsi.

Ym mis Medi, cyhoeddwyd y byddai gwasanaeth Fflecsi Bwcabus yn dod i ben ar 31 Hydref oherwydd diffyg arian. Esgorodd hyn ar bryderon gan deithwyr rheolaidd sy'n dweud eu bod yn dibynnu ar y gwasanaeth.

Wrth gyhoeddi diwedd y gwasanaeth, dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod hyn yn digwydd am nad oedd Llywodraeth Cymru bellach yn gallu darparu cyllid. Gynt, byddai'r gwasanaeth yn cael ei ariannu o grant drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ond Llywodraeth Cymru sydd wedi bod yn ariannu'r gwasanaeth yn llawn ers i gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig ddod i ben ym mis Gorffennaf 2023.

Yn dilyn y cyhoeddiad y byddai'r gwasanaeth yn dod i ben, dywedodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, mewn ymateb i gwestiynau amserol yn y Cyfarfod Llawn:

> Roedd yn ddrwg iawn gennyf glywed y bydd gwasanaeth Bwcabus yn dod i ben… mae Llywodraeth y DU wedi methu rhoi cyllid newydd ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth gwledig a gâi eu cefnogi'n flaenorol gan yr UE. Felly, ni allwn barhau i gefnogi Bwcabus, ond rydym yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru a'r awdurdodau lleol ar archwilio opsiynau amgen…
>
> …Nid oes angen fy mherswadio ynglŷn â pha mor werthfawr ydyw. Y cyfan sydd ei angen arnaf yw arian i'w barhau, ac… rwy'n ofni nad yw'r arian hwnnw gennyf.

Ar 10 Hydref, cyhoeddwyd bod Cyngor Sir Penfro wedi llwyddo i gaffael gwasanaeth newydd i sir Benfro o'i gyllideb ei hun. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhedeg tan 31 Mawrth 2024, ond nid yw dyfodol y gwasanaeth yn hysbys ar gyfer y tymor hwy.

### Ariannu a diwygio ehangach i wasanaethau bysiau

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymorth brys i'r diwydiant bysiau ers i nifer y teithwyr gwympo o ganlyniad i'r pandemig. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd £46 miliwn i gefnogi gwasanaethau hyd at fis Mawrth 2024. Yn y datganiad a gyhoeddodd y cyllid hwn, cyfeiriwyd hefyd at ddatblygu "model ariannu cynaliadwy tymor hwy sy'n pontio'r bwlch i fasnachfreinio". Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyflwyno system Cymru gyfan o fasnachfreinio drwy Fil gwasanaethau bysiau newydd yn ystod y Senedd hon (h.y. 2023-24).

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei lythyr at y Cadeirydd, mae'r Dirprwy Weinidog yn amlinellu bod Trafnidiaeth Cymru wedi cynnal gwerthusiad o'r cynllun, gan gynnwys ei gostau gweithredu a'r galw gan deithwyr. Mae'n dweud:

> …mae'r galw gan deithwyr am y gwasanaeth yn parhau i fod yn isel iawn - fel arfer dim ond un teithiwr sy'n cael ei gludo fesul awr fesul cerbyd. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod contractau gwasanaeth Bwcabus yn dod i ben yn fuan, a'r gost a ragwelir o ddisodli'r rhain ar sail 'tebyg am debyg' hefyd yn edrych yn afresymol o ddrud.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Cyfeiriodd sawl Aelod at sefyllfa gwasanaeth fflecsi Bwcabus yn ystod dadl Plaid Cymru ar wasanaethau bws ar 4 Hydref. Ni dderbyniwyd cynnig Plaid Cymru, a oedd yn cynnwys galwad ar Lywodraeth Cymru i adfer y gwasanaeth, nac ychwaith welliant y Llywodraeth.

Ar 13 Hydref, cyflwynwyd cwestiwn ysgrifenedig gan Andrew R.T. Davies AS a ofynnodd a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ail-bwrpasu cyllid er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i weithredu. Nid oedd ymateb wedi cael ei ddarparu i'r cwestiwn hwn ar adeg paratoi'r briff hwn.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1372
Ein cyf/Our ref LW/02464/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

01 Tachwedd 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 02 Hydref ynghylch 'Deiseb P-06-1372 Achub ein gwasanaeth fflecsi bwcabus'.

Mae gwasanaeth Bwcabus wedi bod yn rhedeg nawr ers dros ddeng mlynedd, yn ystod y cyfnod hwn rydym naill ai wedi ariannu'r cynllun yn uniongyrchol neu wedi hwyluso cyllid grant - ac roedd y diweddaraf o'r Undeb Ewropeaidd. Yn anffodus, mae'r pecyn diweddaraf o arian yr Undeb Ewropeaidd bellach wedi dod i ben gan ein bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Nid oes unrhyw gyllid newydd wedi ei ddarparu gan Lywodraeth y DU er gwaethaf eu haddewidion na fyddai Cymru geiniog gwaeth ar ôl Brexit. Mae heriau cyllideb Llywodraeth Cymru hefyd yn golygu na allwn ddod o hyd i gyllid amgen o gyllidebau adrannol ar gyfer y cynllun.

Bwcabus oedd un o'r cynlluniau bysiau gwasanaeth ar alw cyntaf i gael eu cyflwyno yng Nghymru, ac mae wedi rhoi cipolwg gwerthfawr i ni a'r awdurdodau lleol ar heriau gweithredol rhedeg y mathau hyn o wasanaethau. Ers hynny rydym wedi ariannu nifer o gynlluniau peilot fflecsi mewn ardaloedd eraill.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynnal gwerthusiad manwl o gynllun Bwcabus, a oedd yn edrych yn fanwl ar gostau gweithredol a'r galw gan deithwyr am y gwasanaeth. Yn anffodus, er gwaethaf y ffaith bod cynllun Bwcabus wedi bod yn rhedeg nawr ers nifer o flynyddoedd, mae'r galw gan deithwyr am y gwasanaeth yn parhau i fod yn isel iawn - fel arfer dim ond un teithiwr sy'n cael ei gludo fesul awr fesul cerbyd. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith bod contractau gwasanaeth Bwcabus yn dod i ben yn fuan, a'r gost a ragwelir o ddisodli'r rhain ar sail 'tebyg am debyg' hefyd yn edrych yn afresymol o ddrud.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i Gyngor Sir Caerfyrddin i'w galluogi i barhau â'r gwasanaeth tan ddiwedd mis Hydref.

Ers hynny mae Cyngor Sir Penfro wedi cadarnhau eu bod yn mynd i ariannu'r rhannau o'r gwasanaeth Bwcabus sy'n gweithredu yn Sir Benfro o ddiwedd mis Hydref ymlaen yn ystod yr wythnos, ond heb gynnwys dydd Sadwrn.

Rydym yn gweithio gyda Chynghorau a darparwyr Trafnidiaeth Gymunedol i weld y ffordd orau o wasanaethu'r cymunedau y mae cau cynllun Bwcabws yn effeithio arnynt.

Yn gywir,



**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Eitem 5.4

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1374 Dylai tirfeddiannwyr Cymru – yn yr un modd â Lloegr – allu caniatáu 60 diwrnod y flwyddyn o wersylla mewn pebyll a faniau.

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 27 November 2023

**Cyfeirnod:** SR23/7092-7

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1374

**Teitl y ddeiseb**: Dylai tirfeddiannwyr Cymru – yn yr un modd â Lloegr – allu caniatáu 60 diwrnod y flwyddyn o wersylla mewn pebyll a faniau.

**Geiriad y ddeiseb:**

Yn ystod Covid, estynnodd Cymru hawliau tirfeddianwyr i ganiatáu gwersylla mewn pebyll a faniau gwersylla/cartrefi modur o 28 diwrnod y flwyddyn i 56. Yn 2022, dychwelodd hynny i 28 diwrnod ond cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch gwneud cyfraith 56 diwrnod. Mae cyhoeddiad diweddar gan y Senedd wedi gohirio unrhyw newid parhaol. Ym mis Gorffennaf 2023, mae gan Loegr 60 diwrnod o wersylla a ganiateir, gan roi tirfeddianwyr Cymru dan anfantais. Anogaf y Senedd i edrych ar y gwelliannau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2023 ac ystyried eu dwyn i mewn i gyfraith Cymru.

Mae'r gwelliant newydd, a basiwyd yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2023, yn caniatáu 60 diwrnod o wersylla – gyda hyd at 50 o bebyll a faniau gwersylla/cartrefi modur – y flwyddyn i dirfeddianwyr, yn amodol ar rai rheoliadau newydd: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2023/747/article/3/made

Ymateb y Senedd oedd fod yr ymgynghoriad yng Nghymru wedi dod i ben, ac y byddai newidiadau i'r rheolau ar safleoedd gwersylla dros dro yn cael eu

hystyried mewn diweddariad o'r rheolau hawliau cynllunio a ganiateir yn y dyfodol:

https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/87749

Rwy'n annog bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal nawr, ac yn ceisio bod mor gyson â phosibl â'r gwelliannau yn Lloegr er mwyn peidio â rhoi tirfeddianwyr Cymru fel fi dan anfantais sydd am arallgyfeirio'r defnydd o'u tir er mwyn cynnal incwm yn y cyfnod hwn sy'n anodd i bawb.

# 1. Cefndir

## Datblygu a ganiateir

Mae rhai datblygiadau yn cael eu hystyried yn "ddatblygiadau a ganiateir" sy'n golygu nad oes gofyniad i ofyn am ganiatâd cynllunio oherwydd rhoddir hyn yn awtomatig. Mae *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995* yn nodi beth yw datblygiad a ganiateir.

Mae Dosbarth B o Ran 4 o Atodlen 2 o'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer defnydd dros dro o dir (ac eithrio adeiladau) am 28 diwrnod, yn amodol ar rhai cyfyngiadau ac amodau. O dan yr hawliau datblygu a ganiateir hyn, gellir defnyddio tir ar gyfer safle gwersylla am hyd at 28 diwrnod y flwyddyn heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio - er bod hyn yn berthnasol i bebyll yn unig ac nid yw'n cynnwys carafanau.

Os yw'r defnydd dros dro o'r tir yn para am gyfnod hwy na 28 diwrnod neu'n barhaol, mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fyddai penderfynu a yw hyn yn gyfystyr â 'datblygiad' neu 'newid defnydd' yn nhermau cynllunio. Os felly, efallai y bydd angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Caiff hyn ei adnabod fel y "rheol 28 diwrnod" sydd mewn grym yng Nghymru.

## Newidiadau yn Lloegr

Ar 26 Gorffennaf, daeth *Town and Country Planning (General Permitted Development etc.) (England) (Amendment) Order 2023* i rym. Mae hyn yn

caniatáu i dir yn Lloegr gael ei ddefnyddio fel safle gwersylla dros dro am hyd at 60 diwrnod o'r flwyddyn heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, mae nifer o amodau ynghlwm, **nad ydynt yn berthnasol o dan reol 28 diwrnod Cymru**, gan gynnwys:

- ni chaniateir mwy na 50 o leiniau;
- rhaid darparu toiledau a chyfleusterau gwaredu gwastraff; a
- rhaid hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw bob blwyddyn, a rhaid iddo gael copi o gynllun y safle yn ogystal â'r dyddiadau pan y mae'n weithredol.

Er bod carafanau yn parhau i gael eu heithrio o dan y rheol 60 diwrnod, caniateir cerbydau gwersylla a chartrefi modur.

Mae angen trwydded gwersylla hefyd (yng Nghymru a Lloegr) i osod pebyll am fwy na 42 diwrnod yn olynol neu fwy na 60 diwrnod o fewn blwyddyn galendr. Felly, pe bai perchennog safle gwersylla yn Lloegr yn defnyddio'r rheolau newydd i redeg safle gwersylla am 60 diwrnod yn olynol, er na fyddai angen caniatâd cynllunio, byddai angen iddo wneud cais am drwydded o hyd.

## Y sefyllfa yng Nghymru

Fel uchod, mae'r rheol 28 diwrnod yn dal mewn grym yng Nghymru.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru hawliau dros dro newydd ynghylch datblygu a ganiateir ym mis Ebrill 2021 i helpu i wella adferiad economaidd o COVID-19. Roedd hyn yn rhoi 28 diwrnod ychwanegol ar gyfer defnydd tir dros dro, gan olygu, yn ymarferol, y gellid defnyddio tir fel safle gwersylla am hyd at 56 diwrnod y flwyddyn heb fod angen caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, roedd y ddeddfwriaeth berthnasol ond mewn grym tan fis Ionawr 2022.

Ym mis Tachwedd 2021, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â datblygiadau a ganiateir, gan gynnwys a ddylid gwneud y newidiadau defnydd tir dros dro ychwanegol yn barhaol. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb llawn i'r ymgynghoriad gyda phenderfyniad ynghylch a fydd yr estyniad dros dro yn cael ei wneud yn barhaol, ac nid yw ychwaith wedi datgan a fydd yn cyflwyno'r un rheol sydd bellach mewn grym yn Lloegr.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr at y Cadeirydd, dyddiedig 7 Tachwedd, dywed Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, fod Llywodraeth Cymru:

> …wedi cael gohebiaeth oddi wrth nifer o bobl sy'n byw yn ymyl safleoedd gwersylla dros dro yn mynegi eu pryderon am estyn yr hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwersylloedd o'r fath. Daeth pryderon i law pan oedd y rheol 56 diwrnod mewn grym yn dilyn cyfyngiadau'r coronafeirws ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad ddechrau'r llynedd ar gadw'r cyfnod estynedig.

Mae'n dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion pan fydd yn gwneud y diwygiadau nesaf i hawliau datblygu a ganiateir. Nid yw'r set nesaf o newidiadau wedi'u cynllunio eto.

## 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ym mis Mawrth 2023 gofynnodd Darren Millar AS am ddiweddariad ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch ymestyn hawliau datblygu a ganiateir. Dywedodd yr ymateb fod ystyriaeth o'r newidiadau yr ymgynghorwyd arnynt mewn perthynas â safleoedd gwersylla dros dro yn parhau.

Ym mis Mehefin 2023 cyflwynodd Huw Irranca-Davies AS gwestiwn ysgrifenedig ar y mater hefyd. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> …A final decision will be taken as part of the next review of permitted development rights. Nid yw'r adolygiad wedi'i drefnu eto.

Yn fwy diweddar, ym mis Medi gofynnodd James Evans AS i Lywodraeth Cymru pa gynlluniau oedd ganddi i adolygu'r sefyllfa yng Nghymru yn sgil y newidiadau yn Lloegr. Ymatebodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> We will consider whether 60 days is appropriate, taking account of consultation responses already received on this issue, when we make the next amendments to permitted development rights. The next set of changes have yet to be scheduled.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1374
Ein cyf/Our ref JJ/02798/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

07 Tachwedd 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Mawrth ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deiseb P-06-1374.

Rwyf wedi cael gohebiaeth oddi wrth nifer o bobl sy'n byw yn ymyl safleoedd gwersylla dros dro yn mynegi eu pryderon am estyn yr hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwersylloedd o'r fath. Daeth pryderon i law pan oedd y rheol 56 diwrnod mewn grym yn dilyn cyfyngiadau'r coronafeirws ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad ddechrau'r llynedd ar gadw'r cyfnod estynedig. Felly, mae angen ystyried mwy ar y mater.

Byddwn yn pwyso a mesur a yw 60 diwrnod yn briodol ai peidio, gan ystyried hefyd yr ymatebion a ddaeth i law eisoes i'r ymgynghoriad ar y mater hwn, pan fyddwn yn gwneud y diwygiadau nesaf i'r hawliau datblygu a ganiateir. Nid oes amserlen eto ar gyfer y set nesaf o newidiadau.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-06-1374 Bring Wales in line with England by allowing landowners 60 days tent and campervan camping a year, Correspondence – Petitioner to Committee, 21.11.23**

Andrew Walton
[redacted]

Thank you for the chance to respond to the letter from Julie James AS/MS, Minister for Climate Change.

You asked if the response addresses my questions, and the answer is no. In England a consultation was held in the Spring of this year to amend their permitted rights for camping to 60 days on a permanent basis. This was enacted in the Planning law in July of this year.

The Welsh Government held a consultation on the issue of permitted rights amendments 2 years ago now, and the consultation closed in February 2022. Almost 2 years on from the consultation closing and nothing further has happened. At the very least, rather than keep pushing the issue into the long grass by saying a date to look at this has not yet been scheduled, can you please commit today in this debate to a date by which you will hold a full debate on the matter. Also, while in your letter you refer to evidence received to the consultation, I note that at no point have the consultation results and any evidence been released. As part of today's proceedings can you please also commit to releasing, in full, the results of the consultation held around the element of permitted rights to run a pop-up campsite so that everyone can see the level of support and opposition to the change and what issues need to be overcome?

At the moment in Wales a landowner can create a pop-up camping site without any recourse to talk to neighbours or the local council so I can see how some sites may have arisen which are considered an issue to those living very near-by. But by moving to the same rules as have been enacted in England you can actually avoid some of these issues. For instance, under the English 60 day rule the land owner has to write to the council to notify them of the dates on which they will be operating. This helps with basics such as notifying the fire service in the event of an emergency but it also serves to give the council a list of the names and addresses of those operating under the permitted rights rules and therefore it is easier for the council or other authority to address any issues with the landowner directly. And of course laws around noise nuisance already exist and can be acted upon by the council if it were a problem.

Another advantage of following the England rules is that the sites which choose to operate for up to 60 days in England need to provide toilet facilities and full waste disposal facilities – in Wales this can help with the recycling rates – as a camp site we are very keen to reduce waste, reuse anything we can, and recycle everything.

I must add that most land-owners who use the permitted rights option, like myself, use a website such as Pitchup.com for bookings and these companies ensure that the campsite has full camping rules which include the need to have no noise between the hours of 11pm and 8am and to ensure that other rules around fires etc are included. As an aside we actually specify 10pm for all noise to stop on site, mainly because we live on the land as well and are closer to the camping than any of our neighbours – so from a selfish perspective we also want to be able to sleep in the summer with our windows open. I think you will find that many other pop-up campsites are in the same boat with their residence nearer to the camping than any neighbour would be. The other advantage of companies such as pitch-up.com is that they set up the listing on their site as a pop-up site so they know how many days a site is allowed to operate for in a calendar year, and once you reach that level you can not take any more bookings through them. If you allowed 60 days per year of permitted rights camping more small sites would turn to using these booking services as they would have increased revenue to pay the commission and more dates available to fill and this would increase the proportion of sites which have rules in place and therefore protect neighbours' interests.

The difference between 28 days and 60 days of permitted rights will determine how many landowners even find it viable to open a pop-up campsite. For instance, between 6th April 2021, when the extension was announced in Wales, and 3rd Jan 2022, when it ended, 97 new pop-up campsites were added to pitchup.com. The following year for the same period, only 53 new pop-ups were added. Currently only 28 pop-ups in Wales are live and taking bookings on pitchup.com as the 28-day permitted development right is unviable for many landowners. The significant cost of providing services such as mobile toilet and shower blocks and water supplies is difficult to recoup if sites can only operate for 28 days a year. Sites need to be able to make best use of the weather - bad weather plagued the sector in summer 2023 - and low mid-week occupancy and time erecting and dismantling facilities also deplete the limit.

The temporary extension of permitted rights did not have a negative impact on existing campsites as pitchup.com saw bookings for these sites rise by 97% compared to 2019, highlighting the scale of the demand for outdoor holidays which they expect to remain resilient in the coming years. Pop-ups appear to have expanded the overall camping market rather than taking share from existing formal campsites.

I don't need to tell you and your fellow Senedd members that the Welsh economy is heavily reliant on tourism, particularly in areas of west Wales which are less populous but also offer stunning locations to stay. With the cost of living crisis we are seeing more and more people plan to have staycations in the UK in 2024 and beyond, and this also helps to reduce the carbon footprint by avoiding air travel. But Wales will miss out on a large portion of this income by putting Welsh pop-up campsites at a 32 day disadvantage to their English counterparts.

I am a senior statistician for the UK Government by training, so analytical evidence is what most persuades me. Camping and caravanning is more important to Welsh

tourism than for other parts of the UK. In Wales, camping and caravanning holidays make up 34% of all holidays, compared with 20% in England and 21% in Scotland. Yet that 20% in England, because of the 60 days ruling means that spend on pop-up camping holiday sites in England this year has been 577% more than in Wales. That is a massive boost that could be given to Welsh landowners with a simple change in the rules to bring consistency with England. Speaking personally, when we have campers we tell them all about what the local area has to offer, and we find that our campers don't stay on site all day but do head out in to Aberaeron, Cardigan, New Quay and Aberystwyth to visit attractions and to eat in local pubs and restaurants. So the knock-on impact of campers staying to the local economy and local businesses is massive. A quick look back at our bookings for this year shows that over 75% of our campers came from England, so that is a significant income being brought in to Wales. In 2021, temporary campsites listed on Pitchup across the UK generated £25m for the British rural economy (estimates based on Pitching the Value figures p.23). This is broken down as:

- £9.8m in pitch fees
- £2.9m in extras like firewood and fresh produce
- £12.3m in off-site spend for local pubs, restaurants and newsagents for example

In Wales the contribution has been steadily declining since the PDRs reverted despite UK booking value increasing by 20% this year in comparison to last year, underpinned by long-term trends in sustainable living and health and wellness.

More of holidaymakers' spend is in the local rural economy than on pitch fees. Pop-up campsites have contributed £4.2m to the Welsh rural economy since the start of 2021 but now the 28 days rules are back in place the 2023 contribution is only around half the level of 2021.

The increased time for this permitted development right will have a hugely positive impact on communities by boosting GVA and employment opportunities without depriving local residents of housing stock, unlike tourism accommodation such as holiday lets. Also, with a higher footfall than holiday lets, minimal on-site facilities (and in tents themselves) and low prices meaning more money in holidaymakers' pockets, campsites deliver a much greater share of visitor spend to rural high streets and other local businesses. This spending over a short period helps to underpin the viability of local services for the benefit of local residents all year round.

I have also spoken with pitchup.com about the issue of complaints and they state "We have received fewer than a handful of complaints relating to pop up sites. In fact, we have found that, as pop-up campsites are cheaper and offer a nearly-wild experience, they can help to deter illegal 'dirty camping' by providing a regulated and managed alternative - further helping local communities and easing the need for local authority enforcement. Pitchup.com sends out a copy of the Countryside Code with every booking, encouraging customers to leave no trace."

So I urge the Senedd members to consider a timely debate on the permitted rights rules for land-owners and to consider the case study below. Ultimately all Wales landowners who run a pop-up campsite want to be able to run extended pop-up camping in a sustainable manner which boosts the Welsh economy without negative impacts on the environment or the local areas by ensuring that the right rules are in place, under a light touch council lead scheme commensurate with the number of days on offer i.e. not as burdensome as the requirements for a year round camping licence.

Thank you for the chance to put my views across.

Andrew Walton

Tynrhos Camping and Fishing Ltd.

<u>Case study:</u>

The permanent introduction of the 60-day allowance will benefit hundreds of farm owners in rural communities in Wales, such as [redacted] and [redacted], who own [redacted] in Pembrokeshire:

- [redacted] site is located on their family organic beef farm that has existed since 1948. When they learned of the 56-day rule, [redacted] invested around £1,300 in creating their site - building 3 portable showers and 3 kitchenettes for visitors. Their site went live on Pitchup on 25 June, and closed on 3 September.
- As a result of the 56-day rule, the site was able to remain open from 9th July through to 3rd September. [redacted] "made around £43,000 in those 56 days and after paying all of the bills (logs, campfires, toilet hire, drain digger, cleaning products)… profited a fantastic £36,000."
- [redacted] added that as farmers, this extension "has made a massive difference", explaining that the revenue provided by the pop-up campsite made them "financially able to keep the farm going that bit longer and support our family better."
- Explaining why the pop-up sites are an excellent way to diversify income, they said: "If we were to invest into the cattle, we would have to restructure the whole business and become a herd of about 75-100 head of cattle. We would have to build more sheds to sleep all of the cattle and this would cost around about £220,000 - £270,000 and would still not make as much money as the campsite did in those 56 days. It would also put our family into a huge, constant, never ending debt which would be impossible to ever pay back."

[redacted] concluded that the ease by which they generated the campsite income has been a game changer for their farm. They concluded: "To change from the 28- day rule to the 56-day rule permanently would dramatically change our income, our livelihood, our future and make less impact on our beautiful, organic fields."

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i daliadau peilot incwm sylfaenol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Tachwedd 2023
Petitions Committee | 27 November 2023

Cyfeirnod: SR23/7092-9

Rhif y ddeiseb: P-06-1376

Teitl y ddeiseb: Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i daliadau peilot incwm sylfaenol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

Geiriad y ddeiseb: Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn talu £1600 y mis i rai plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, fel rhan o gynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal awdurdod lleol.

Beth am bobl sy'n ei chael yn anodd byw ar lawer llai sydd wedi talu trethi a chyfraniadau ar hyd eu bywyd gwaith.

Ni ddylid caniatáu hyn ac mae'n taro fel addewid gwag i ddenu pleidleisiau.

# 1. Y cefndir

Ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot i gynnig incwm sylfaenol i bobl sy'n gadael gofal ('y cynllun peilot'). Mae'r cynllun peilot yn rhoi taliad incwm sylfaenol o £1,600 y mis (£1,280, ar ôl treth) i bobl ifanc cymwys â phrofiad o fod mewn gofal am 24 mis o'r mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed.

Bydd y cynllun peilot yn cael ei gynnal am gyfanswm o 36 mis, gydag unigolion yn dechrau ac yn gorffen eu cyfranogiad yn ystod y cyfnod hwn. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai dros 500 o bobl ifanc yn gymwys i ymuno â'r cynllun. Erbyn 31 Gorffennaf 2023, roedd 635 o bobl ifanc wedi cael y taliad incwm sylfaenol.

Mae trosolwg o'r cynllun, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022, yn nodi'r meini prawf safonol ar gyfer bod yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Mae'n nodi y gall person gymryd rhan yn y cynllun peilot os yw:

- yn gadael gofal ac yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023;
- wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos, neu am gyfnodau sy'n dod i gyfanswm o 13 wythnos, a ddechreuodd ar ôl iddo ef neu hi gyrraedd 14 oed, ac a ddaeth i ben ar ôl iddo ef neu hi gyrraedd 16 oed; ac
- yn gadael gofal ac yn byw yng Nghymru, neu wedi'i osod y tu allan i Gymru ond yn cael ei gefnogi gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru.

Gan gyfeirio at blant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches, mae'r trosolwg yn nodi:

> Yn unol ag egwyddor Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru, caniateir i geiswyr lloches a ffoaduriaid cymwys gymryd rhan yn y cynllun, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cyffredinol, a bod ganddynt gyfrif banc/cymdeithas adeiladu/undeb credyd.

Felly, mae plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun peilot (sef bod yn berson

ifanc 'categori 3' sy'n gadael gofal a fu'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru) wedi gallu cymryd rhan ynddo.

Ar 31 Gorffennaf 2023 roedd 67 o gyfranogwyr yn y cynllun peilot, neu 11 y cant, yn blant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches neu'n arfer bod yn blant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches ar adeg cofrestru yn y cynllun.

## 1.1. Mynediad at gymorth cyfreithiol

Mae'r trosolwg o'r cynllun yn nodi os bydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol ar berson ifanc sy'n cael y taliad incwm sylfaenol, efallai na fydd yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol oherwydd lefel yr incwm y mae'n ei gael. Mae'n nodi'r hyn y dylid ei ystyried o dan yr amgylchiadau hyn:

> Un o bedair egwyddor allweddol y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yw na ddylai cymryd rhan yn y peilot wneud unrhyw gyfranogwr yn waeth ei fyd. Lle gallai mynediad i gymorth cyfreithiol fod yn ffactor, dylid ystyried hyn fel rhan o'r cyfrifiadau 'gwell eu byd' cyffredinol. Rydym yn cydnabod y gall amgylchiadau unigolion newid unwaith y byddant wedi cofrestru â'r peilot ac efallai y bydd angen ystyried hyn ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn well eu byd o ddal ati i dderbyn y Cymorth Incwm Sylfaenol.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gais i Lywodraeth y DU yn gofyn i'r rheolau ynghylch cymorth cyfreithiol gael eu llacio ar gyfer pobl ifanc sy'n rhan o'r cynllun peilot. Ar 18 Ebrill 2023, cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth y DU nad oedd mewn sefyllfa i allu eithrio aelodau o gynllun peilot incwm sylfaenol i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru o'r profion modd ar gyfer cymorth cyfreithiol.

# 2. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Ym mis Medi 2020, bu'r Senedd yn trafod cyflwyno cynllun peilot incwm sylfaenol cyffredinol yng Nghymru, gyda 28 allan o 51 o Aelodau yn pleidleisio o blaid y cynnig.

Ym mis Tachwedd 2021, trafododd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb yn galw am gynllun peilot incwm sylfaenol cyffredinol 'Ymadawyr Gofal a Mwy' yn ôl ardal ddaearyddol sy'n cynnwys amrywiaeth o bobl (gan gynnwys plant, pobl

gyflogedig, pobl ddi-waith a phensiynwyr) yn ogystal â phobl ifanc sy'n gadael gofal. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y cynllun i dargedu pobl ifanc sy'n gadael gofal yn un teilwng, ond pwysleisiodd "ni ddylai fod yn waeth ar y rhai sy'n cymryd rhan mewn unrhyw gynllun peilot nag y byddai pe na byddent wedi cymryd rhan ynddo". Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylai cynllun peilot effeithiol "gynnwys y rhai sy'n gadael gofal o ystod mor amrywiol â phosibl o gefndiroedd, lleoliadau ac amgylchiadau".

Cyfeiriodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd at y cynllun peilot incwm sylfaenol yn ei adroddiad ar ddiwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (Mai 2023). Yn ôl yr adroddiad, er bod potensial incwm sylfaenol i "liniaru amlygiad pobl sy'n gadael gofal i dlodi ar adeg dyngedfennol yn eu bywydau" i'w groesawu, roedd gan rai rhanddeiliaid a phobl ifanc sy'n gadael gofal bryderon am y cynllun peilot (gan gynnwys pryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau a chamfanteisio troseddol). Gan dynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun, mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Comisiynydd Plant yn nodi:

> I welcome the ambitions of the Basic Income Pilot to support care leavers, however, I have been made aware of issues with the implementation of the Basic Income Pilot, particularly for Unaccompanied Asylum Seeking Young People. I am aware that some young people's eligibility for other financial benefits have been impacted, such as with the claiming of student finance, access to housing benefit for those living in supported accommodation and access to legal aid.

Ni ddaeth y Pwyllgor i unrhyw gasgliadau penodol ar y cynllun peilot, ond croesawodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol cadarn ohono, y bydd y Pwyllgor yn ei drafod pan gaiff ei gyhoeddi.

Mae Andrew RT Davies, Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, wedi mynegi pryderon am y cynllun peilot, gan ddadlau y gallai rhoi taliad incwm sylfaenol i bobl nad oes ganddynt statws sefydlog weithredu fel "ffactor atyniadol i lenwi pocedi smyglwyr pobl yr ochr arall i'r sianel".

Mae pryderon tebyg am y cynllun wedi'u mynegi gan Brif Weinidog y DU a David TC Davies, Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

# 3. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar 25 Hydref 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn nodi cynnydd y cynllun peilot. Dywedodd fod adborth cynnar gan y bobl ifanc a gymerodd ran yn y cynllun peilot yn gadarnhaol a bod y gyfradd fanteisio dros dro o 97 y cant yn "sylweddol":

> Rydyn ni wedi clywed adborth gwych hyd yma gan y rhai sydd wedi cofrestru. Rydyn ni wrth ein bodd bod y nifer uchaf erioed wedi manteisio ar y cynllun peilot, ond mae'n ddyddiau cynnar o hyd, a bydd yn cymryd blynyddoedd i asesu'r gwir effaith ar eu bywydau.

Mae Prifysgol Caerdydd, o dan arweiniad Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant y Brifysgol (CASCADE yn Saesneg), yn cynnal gwerthusiad pedair blynedd o'r cynllun peilot (Tachwedd 2022-2026). Dywedodd y Gweinidog y bydd y gwaith ymchwil hwn yn olrhain effaith y cynllun peilot ar fywydau'r cyfranogwyr ar hyn o bryd, yn ogystal ag yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth iddynt ddod yn oedolion, ac yn trafod sut mae'r cynllun peilot wedi'i weithredu, beth oedd yr effeithiau a pha gostau oedd yn gysylltiedig ag ef.

Mae gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at y Pwyllgor Deisebau ar 25 Hydref 2023 yn nodi bod mwy na 600 o bobl ifanc a oedd yn gadael gofal, ac a oedd yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, wedi cymryd rhan yn y cynllun. Yn ôl y Gweinidog:

> […] care experienced unaccompanied asylum-seeking children have always been included as eligible for the basic income pilot as category three care leavers. n line with our Nation of Sanctuary approach, we want to ensure that unaccompanied asylum-seeking children are supported to rebuild their lives. Enabling eligible young people to participate in the Basic Income for Care Leavers in Wales pilot supports this ambition.

Cadarnhaodd y Gweinidog fod rhai o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y peilot yn blant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches ar adeg cofrestru, ond bod nifer ohonynt wedi cael caniatâd i aros ers hynny (sef yr hawl i fyw, gweithio ac astudio yn y DU, a gwneud cais am fudd-daliadau os yn gymwys).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1376
Ein cyf/Our ref JH-/00877/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

25 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1376 sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i daliadau peilot incwm sylfaenol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Roedd y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn cynnig cyfle i dros 600 o bobl ifanc a oedd yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 dderbyn £1600 bob mis (cyn treth) am ddwy flynedd i'w cefnogi wrth iddynt symud ymlaen i fywyd oedolyn. Roedd hyn yn cynnwys rhai unigolion a oedd yn blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches ar adeg eu cofrestru. Mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ac sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol ers y cychwyn, fel rhai sy'n gadael gofal categori tri.

Yn unol â'n nod o fod yn Genedl Noddfa, rydym am sicrhau bod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn cael eu cefnogi i ailadeiladu eu bywydau. Mae galluogi pobl ifanc cymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn cefnogi'r uchelgais hwn.

Y rheswm dros gynnig gweithio gyda'r garfan hon yn hytrach nag unrhyw grwpiau eraill sydd fel arfer yn wynebu tlodi neu unrhyw fathau eraill o anfantais oedd er mwyn deall yr heriau unigryw y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn eu hwynebu. Roeddem am weld a allai ymestyn y cyfnod y darperir cymorth iddynt gael effaith gadarnhaol wrth iddynt symud ymlaen i fywyd oedolyn.

Mae'r taliad incwm sylfaenol misol o £1600 yn cael ei drethu yn y tarddle (cyn i'r person ifanc ei dderbyn) fel incwm nas enillir. Felly, mae pob cyfranogwr yn y cynllun peilot yn derbyn £1280 y mis, yn amodol ar unrhyw newidiadau yng nghyfradd sylfaenol treth incwm.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein data cofrestru ynghylch y rhai fu'n blant yn ceisio lloches ar eu pen eu hunain yn adlewyrchu eu statws lloches wrth iddynt gofrestru, a gwyddom fod nifer o'r rhai fu'n blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches sy'n cymryd rhan yn y peilot wedi cael caniatâd i aros ers ymuno â'r cynllun peilot.



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**P-06-1184 Dylid gwahardd ar unwaith y defnydd o blwm gwenwynig yn holl ffrwydron Cymru … mae plwm yn lladd ein bywyd gwyllt!**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Robert Curtis, ar ôl casglu cyfanswm o 4,052 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae plwm yn fetel gwenwynig ac yn wenwyn cryf iawn, ond eto i gyd mae dros 6,000 tunnell yn cael eu tanio at adar hela bob blwyddyn yn y DU. Pe bai unrhyw ddinesydd yn gollwng miloedd o dunelli o wenwyn yn fwriadol i gefn gwlad Cymru, byddai'n cael ei hun o flaen ei well mewn llys barn, fel sy'n briodol.
Mae adar yn aml yn camgymryd pelenni saethu bach am raean neu hadau ac yn eu hamlyncu, gan ddioddef marwolaethau poenus o ganlyniad. Mae adar sy'n marw fel arfer yn cael eu cipio'n gyflym gan ysglyfaethwyr – sy'n golygu eu bod nhw'n marw o olwg y cyhoedd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Yn draddodiadol mae'r mwyafrif o ffrwydron – bwledi, pelenni gwn saethu a phelenni gwn aer, wedi'u gwneud â phlwm.
Mae plwm yn effeithio ar y rhan fwyaf o systemau'r corff mewn anifeiliaid, gan gynnwys y systemau nerfol a chylchrediad y gwaed, a gall dod i gysylltiad ag ef ar lefel isel effeithio ar system imiwnedd ac ymddygiad adar. Mewn rhai amgylchiadau, gall llyncu un belen plwm, hyd yn oed, ladd aderyn.
Mae consortiwm o sefydliadau saethu bellach yn cefnogi newid i ffrwydron di-blwm at ddefnydd pawb sy'n saethu prae byw gyda gynnau yn y pum mlynedd nesaf.
Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o'r difrod y mae plwm yn ei wneud i'n hamgylchedd, ond rydym o'r farn bod yr argyfwng ecolegol yn mynnu ein bod yn gosod gwaharddiad ar unwaith ar ffrwydron plwm o bob math. At hynny, credwn fod yn rhaid i'r gwaharddiad gynnwys saethiadau clai ac nid

"prae byw" yn unig, gan fod y ffrwydron plwm a wastraffwyd yn dal i aros yn yr amgylchedd.

Mae Barry Action yn grŵp cadwraeth gwirfoddol bach sydd wedi'i leoli yn un o drefi arfordirol de Cymru, Barri.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

**P-06-1209 Dylid creu rhestr o bob gofalwr di-dâl yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mike O'Brien, ar ôl casglu cyfanswm o 77 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ers cryn amser bellach ei bod hi'n dasg anodd nodi gofalwyr di-dâl, felly mae'r ddeiseb hon yn galw am greu cofrestr genedlaethol o ofalwyr i'w gwneud yn haws nodi pwy yw'r gofalwyr di-dâl.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1209
Ein cyf/Our ref JMSS/00641/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

1 Tachwedd 2023

Annwyl Jack Sargeant AS

Diolch ichi am eich gohebiaeth ar 6 Hydref, ynglŷn â deiseb P-06-1209 ynghylch rhestr genedlaethol sy'n cynnwys pob gofalwr di-dâl. Hoffwn roi ddiweddariad ar fy llythyr blaenorol ar y pwnc hwn, dyddiedig 7 Medi. Fel y rhagwelwyd yn y llythyr hwn, cyflwynais y gwaith ymchwilio a'r costau a fyddai'n gysylltiedig â chreu rhestr genedlaethol i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl ar 25 Medi.

Nodais y cyfyngiadau GDPR ar rannu data o restrau a gedwir gan asiantaethau trydydd sector a statudol, a'r cyfyngiadau a fyddai'n rhan annatod o gynllun a fyddai'n gofyn i ofalwyr di-dâl ymuno â mwy nag un rhestr. Gadewais y cyfarfod er mwyn i'r grŵp cynghori allu cynnal trafodaeth agored. Cefais wybod wedyn gan Alwyn Jones, y Cadeirydd, nad oedd y grŵp o'r farn y byddai creu cofrestr fel yr un a amlinellwyd o werth na budd sylweddol i ofalwyr di-dâl.

Mae'r deisebydd wedi codi cwestiynau ynghylch y gost o goladu manylion cyswllt i'r rheini sy'n cadw rhestr o ofalwyr di-dâl mewn awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a sefydliadau gofalwyr. Mae hyn yn caniatáu inni rannu gwybodaeth Llywodraeth Cymru â phob gofalwr sydd ar y rhestrau a gedwir ar draws Cymru. Roedd y gallu hwn yn un o'r uchelgeisiau a oedd yn gysylltiedig â chadw un rhestr sengl. Cafodd y gwaith coladu ei wneud gan swyddogion heb unrhyw gostau ychwanegol.

Mae'r deisebydd wedi codi cwestiynau ynghylch parodrwydd rhai deiliaid rhestrau i ddosbarthu gwybodaeth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw un sy'n gyfrifol am gadw rhestr nad fyddai'n fodlon gwneud hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym wedi ymrwymo i adolygu sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan greu gweithgor sy'n adrodd i Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Mae hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith gofalwyr, ynghyd â'u gallu a'u parodrwydd i hunanddiffinio yn elfen bwysig iawn o'n strategaeth bresennol, sy'n cael ei gweithredu gan sefydliadau gofalwyr cenedlaethol.

Mae'r deisebydd yn sôn am gerdyn i ofalwyr ac mae'n credu y gallai cerdyn o'r fath fod yn sail ar gyfer cydweithio i greu rhestr genedlaethol. Bydd fy swyddogion yn ystyried hyn ochr yn ochr â'r cynlluniau eraill sy'n cael eu hystyried. Gallai'r cyfle i ofalwyr di-dâl gael cerdyn adnabod sy'n cydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae fod yn gyfle gwerthfawr. Mae fy swyddogion wrthi'n ymchwilio i'r cynlluniau hyn ar y cyd â'n partneriaid yn y trydydd sector. Mae materion y mae angen eu hystyried o ran y corff priodol ar gyfer hyrwyddo cynlluniau o'r fath, a allai gynnwys elfen fasnachol a'r angen i ddilysu statws gofalwyr di-dâl.

Mae hyn yn rhan o'n gwaith parhaus, a byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda Grŵp Cynghori'r Gweinidog i sicrhau ein bod yn darparu'r cymorth mwyaf effeithiol a gwerthfawr ar gyfer y gofalwyr hyn.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**P-06-1209 Create a national list of all unpaid carers in Wales, Correspondence – Petitioner to Committee, 21.11.23**

I'd like to address the Deputy Ministers point on the verification status of unpaid.

One of Welsh governments main priorities in the National Strategy for Unpaid Carers is the identification of unpaid carers and making improvements around how this happens however, if unpaid carers are going to be expected to verify their status this will in fact have the opposite effect and discourage unpaid carers from self-identifying.

At a recent Carers Wales conference held in Cardiff which the Deputy Minister herself attended, one of the two Unpaid Carer Representative on the Ministerial Advisory Group for Unpaid Carers stated that organisations need to start showing that they trust unpaid carers. By asking people to verify that they are indeed unpaid carers this shows a lack of trust, after all what is there to be gained from claiming to be an unpaid carer when you are not.

I would be interested to hear where the idea of unpaid carers having to verify their caring status has come from.

Companies like Carers Card UK don't verify whether or not a person signing up for one their cards is being truthful and trust that a person signing up is actually an unpaid carer. At the Cardiff and Vale Unpaid Carers Assembly held at Sophia Gardens Cricket Ground on Monday November 20th 2023, my colleague and fellow organiser of the event and I were proud to be able to launch a free digital version of the aforementioned Carers Card UK and we will also not be seeking that unpaid carers verify their status. In the continued event of a lack of Welsh Government supported National Unpaid Carers Register we will endeavour to seek out further funding so that we can begin to provided the Carers Card UK card at both a regional and National level

Welsh government wants to earn the trust of unpaid carers, but in this instance they are not showing that they trust us. Trust is a two way street, so if they want our trust they also need to show that they are prepared to trust us.

As an unpaid carer myself I can unequivocally state that there is nothing to gain by falsifying your status as an unpaid carer. No financial gain to be made, no personal gain to be had and no gain for the people we care for.

**P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndŵr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elfed Wyn ap Elwyn, ar ôl casglu cyfanswm o 10,539 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae hanes yn bwnc mor allweddol i ni yma yn Nghymru. Mae straeon o'n cenedl yn dangos i ni sut rydym ni wedi datblygu dros y canrifoedd i fod fel rydym heddiw. Mae cymeriadau wedi lliwio'r hanes diddorol yma, gyda neb mor amlwg ag Owain Glyndŵr, sydd wedi cyfrannu gymaint i'n hunaniaeth, ac mae llawer yn ei ddefnyddio fel symbol y genedl. Mae'n ddigalon iawn i weld bod cartref Glyndŵr, sef Sycharth, bron yn angof yng nghanol cefn gwlad Powys, a dyw'r lle ddim yn hygyrch iawn i bobl gael ymweld.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Mae'n amser i'r Llywodraeth fynd ati i sicrhau bod y safle hollbwysig yma'n cael ei gadw'n saff i'r genhedlaeth nesaf, drwy ei brynu a'i wneud yn fwy hygyrch i bobl allu mynd yno i werthfawrogi'r safle bendigedig yma.
Mae'n siomedig gweld yr holl gestyll o gwmpas Cymru'n cael eu gwarchod, a bod y safle yma prin yn cael ei hysbysebu, heb sôn am ddathlu.
Amser newid y ffordd edrychwn ni ar hanes Cymru, gan ddechrau gyda Sycharth.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

Powys

From the office of the Executive Leader / Oddi wrth Swyddfa'r Arweinydd Gweithredol

Powys County Council
Powys County Hall
LLANDRINDOD WELLS
Powys
LD1 5LG

2 November 2023

Mr Jack Sargeant MS
Chair
Petitions Committee

Sent via e-mail: petitions@senedd.wales

Dear Mr Sargeant

**Petition P-06-1337 Sycharth, the home of Owain Glyndŵr, should be bought to safeguard the site for future generations**

Thank you for your letter of the 25th October 2023 regarding the above.

Whilst the erection of traffic signs within the highway on the county roads maybe a matter for the County Council as Highway Authority, the request for traffic signing to tourism destinations would need to be applied for, and funded, by the destination's owner/operator.

However, tourism signing is normally only considered where there is a significant number of people visiting a site and there is adequate parking at that facility to cater for those visitors.

I understand the need to have adequate signage to our prominent and important historical sites but the parking facility at Sycharth is very limited and to positively sign people to this location may encourage more visitors than can be accommodated. As the Deputy Minister for Economy commented '*huge visitor numbers might in fact be detrimental'* and '*that the narrow access roads provide a challenge'*.

I respectfully suggest that given the scale of the attraction, its parking and accessibility, it would not be considered as a destination that meets the requirement for tourism signing.

Yours sincerely

CJ GWatt

***Cynghorydd Sir James Gibson-Watt***
***Arweinydd Gweithredol, Cyngor Sir Powys***
**County Councillor James Gibson-Watt**
**Executive Leader, Powys County Council**

www.powys.gov.uk
Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.
You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.
Cymraeg